

Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd Cynllun 'Cymorth Cartref'

CHWARAE

Pam fod Chwarae'n Bwysig?

Wrth i blant ddatblygu, byddan nhw'n dysgu llawer o sgiliau fel edrych, cymryd troeon, siarad a sut i gymysgu â phlant a phobl eraill. Mae chwarae'n rhan bwysig o ddysgu'r holl bethau hyn, yn enwedig siarad a heb sgiliau chwarae da, gall fod yn anodd dysgu i siarad.



Mae teganau plant yn eu hannog i ddysgu am y byd o'u cwmpas. Mae chwarae â phlant a phobl eraill yn eu helpu i ddysgu i gyfathrebu.

Mae yna lawer o wahanol fathau o chwarae ac felly llawer o ffyrdd i helpu'ch plentyn i ddysgu.

Mae'r daflen hon yn rhoi rhai syniadau i chi o sut gallwch fanteisio i'r eithaf ar chwarae.

Chwarae, Chwarae a Chwarae efo

Yn aml bydd plant yn mwynhau chwarae pethau drosodd a throsodd – mae hyn yn rhoi'r cyfle delfrydol i chi ddweud geiriau drosodd a throsodd. Bydd clywed geiriau yn y ffordd yma'n eu helpu i ddysgu i siarad.

Beth allwch chi ei wneud?

Gwnewch sylwadau ac ailadroddwch eiriau ac ymadroddion syml. *laith modelu* ydi'r enw am hyn. (Cofiwch, y nod ydi pwysleisio geiriau *allweddol* nid brawddegau llawn)

- Wrth adeiladu tŵr: "Www bric goch. O o, syrthio i lawr, CLEC!"
- Wrth chwarae â theganau sy'n anifeiliaid: "Edrycha, ceffyl yn rhedeg, ci yn neidio, dafad yn bwyta."
- Wrth chwarae gyda'ch gilydd yn y pwll tywod: "Gwneud twll, cuddio'r cwch."



Rhowch gynnig ar y gemau yma garfref

Chwarae â wynebau: gwnewch seiniau gwirion a chopiwch eich gilydd.

Teganau neidio: gadewch i'ch plentyn ddarganfod beth fydd yn digwydd pan fydd ef/hi'n gwneud rhywbeth ee. Jac yn y bocs.

Gemau edrych: eisteddych gyferbyn eich gilydd a chwythwch swigod. Arhoswch am gyswllt llygaid a llefaru gan eich plentyn cyn chwythu mwy

Cymryd froeon: rholiwch geir/peli i'ch gilydd. Adeiladwch dyrau mae eich plentyn yn gallu eu curo i lawr ar "Ar dy farciau, barod, cer!"

Crëwch annibendod: pwll tywod, twb dŵr, amser baddon. Rhowch wahanol wrthrychau yn y dŵr/tywod mae eich plentyn yn gallu eu teimlo a chwarae â nhw.



Rhigymau/caneuon actol: canwch ganeuon neu rigymau â llawer o weithredoedd, ee, "Bys a bawd yn symud" a "Phry bach yn mynd i fyny."

Te parti: gan ddefnyddio set o lestri te cogiwch gael cwpanau o de a chacen. Defnyddiwch fwydydd tegan neu torrwrch luniau allan.



Gweifhgareddau bob dydd: chwaraewch gyda'ch gilydd â theganau gwahanol ond diddorol ac actiwch weifhgareddau bob dydd. E.e. Bwyta, ymolchi, rhedeg.

Cofiwch - *Ddilynwch arweiniad eich plentyn, anogwch ef/hi i gymryd troeon a defnyddiwch iaith y mae ef/hi'n gallu ei chopio.*

os ydych yn poeni am leferydd eich plenfyn neu am gael mwy o wybodaeth, ffoniwch eich Gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith lleol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-Bont ar Ogwr
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Wrecsam a Sir y Fflint 01978 727071 Conwy a Sir Ddinbych 01745 443178 Gogledd-orllewin Cymru 01286 662760	Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam, yn ogystal â rhannau o'r canolbarth, Swydd Gaer a Sir Amwythig
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Preswylwyr Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Cwm Taf	Cwm Cynon, Merthyr Tudful, Cymoedd y Rhondda ac ardal Taf Elái
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.
Bwrdd Addysgu Iechyd Powys	Aberhonddu, Y Drenewydd, Sir Fynwy a Threfyclo, Sir Frycheiniog a gweddill Maesyfed

Afasic Cymru yw'r unig elusen yng Nghymru sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc ag Anghenion Lleferydd, iaith a Chyfathrebu (SLCN), a rhoddir pwyslais arbennig ar bobl ifanc â Nam Penodol ar iaith (SLI) www.afasiccymru.org.uk.

Mae Afasic Cymru'n cydnabod Amy Hewer, Therapydd iaith a Lleferydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Dechrau'n Deg Wrecsam am weithio mewn partneriaeth i gynhyrchu'r wybodaeth hon.

Ariennir cynhyrchiad y daflen hon gan
Sefydliad Waterloo a Llywodraeth Cymru

The logo for the Waterloo Foundation, featuring the text "thewaterloofoundation" in a green, lowercase, sans-serif font, with a small blue asterisk above the letter "i".



Llywodraeth Cymru
Welsh Government